Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Borthygest

**Stryd Merswy**
**Borth y Gest**
**Porthmadog**
**Gwynedd**
**LL49 9UF**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Borthygest

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Borthygest |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 - Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 24 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 29.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 20.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth ynghyd â'r staff brwdfrydig yn darparu cwricwlwm cyffrous i ddisgyblion ac yn sefydlu amgylcheddau dysgu hynod ddeniadol ar eu cyfer. Maent yn llwyddo i ddatblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ystod dda o weithgareddau ysgogol a chyffrous. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb a sicrhau cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n cynnig digon o her i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn lle diogel ble mae staff yn meithrin parch, lles a gofal y disgyblion, yn ogystal â sicrhau eu balchder o'u cymuned ac o Gymru yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Maent yn hybu'r ysgol fel lle cartrefol a gofalgar, sy'n annog disgyblion i ddangos empathi ac ymddygiad cadarnhaol, gan fwynhau eu dysgu mewn amgylchedd hapus.

Cryfder amlwg yr ysgol yw'r modd mae disgyblion o bob cefndir ieithyddol yn dod i siarad Cymraeg yn fuan. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n ddiwyd er mwyn cefnogi'r disgyblion i barhau i wella eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn eu dysgu a'u chwarae yn gyson.

Yn ddiweddar, mae staff wedi rhoi cyfleoedd i ddisgyblion rannu syniadau ac awgrymiadau am wahanol agweddau o'r ysgol. Er bod grwpiau buddiol wedi eu sefydlu gan y disgyblion, fel y cyngor ysgol, mae eu dylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol yn parhau yn gyfyng.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella yn briodol. Ar y cyfan, mae gan arweinwyr hanes da o roi gwelliannau yn eu lle, sy'n arwain at gynnydd ym medrau'r disgyblion ac yn meithrin eu lles yn dda. Er hyn, nid yw'r trefniadau gwerthuso yn mesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'n glir bob tro os yw'r gwelliannau'n mynd i gael eu cynnal yn gyson dros amser.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Sicrhau bod yr holl weithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, a bod adborth athrawon yn symud y dysgu yn ei flaen

A2 Miniogi trefniadau ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol

A3 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae athrawon a staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, gan adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac mae'r cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn cael effaith gadarn ar eu lles. Mae darpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a'u doniau celfyddydol yn llwyddiannus.

Beth bynnag fo cefndir ieithyddol y disgyblion, mae'r ddarpariaeth yn sicrhau eu bod yn dod i siarad Cymraeg yn gyflym. Mae hyn yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu balchder o'u hiaith, eu gwreiddiau yn y gymuned leol a'u Cymreictod. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i barhau i flaenoriaethu'r agwedd o ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion ymhellach. Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol yn parhau i roi pwyslais cynyddol ar yr agwedd hon.

Mae'r pennaeth, y staff a'r rhieni yn falch o'r teimlad cartrefol, gofalgar a chynhwysol sy'n cael ei feithrin a'i ddatblygu yn yr ysgol. Mae'r staff yn ymfalchïo eu bod yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Mae'r berthynas waith gynhaliol yn cefnogi pob disgybl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae hyn, ynghyd â disgwyliadau uchel staff, yn creu amgylchedd sy'n annog parodrwydd y disgyblion i ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais a pharchus. Maent yn barod iawn i drafod eu dysgu ac agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus, yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau ac yn dyfalbarhau yn eu dysgu yn llwyddiannus. Dangosant empathi wrth ddysgu a chwarae â'i gilydd yn gwbl naturiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio amgylcheddau dysgu hynod ysgogol a deniadol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud defnydd ardderchog o'r ystafelloedd dosbarth, yr amgylcheddau dysgu, ardal ddysgu allanol yr ysgol, ardal y goedwig a'u hardal leol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu yn hynod lwyddiannus. Maent yn defnyddio adnoddau dysgu ysgogol a graenus, er enghraifft arteffactau o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, a morthwyl a hoelion er mwyn i'r disgyblion eu defnyddio yn y gweithdy. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gysylltu'n uniongyrchol â'u dysgu mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae staff yn darparu cwricwlwm bwriadus, eang, diddorol a chyffrous, sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn llwyddiannus. Mae athrawon yn ystyried syniadau'r disgyblion yn gyson wrth iddynt gynllunio gweithgareddau dysgu, sy'n

ennyn eu diddordeb yn y themâu tymhorol yn effeithiol. Mae dyluniad crefftus yr athrawon o'r cwricwlwm yn golygu bod gweithgareddau'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws meysydd dysgu gwahanol. Cryfder amlwg yw'r modd mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ofalus, gan ddefnyddio adnoddau cymunedol, sefydliadau allanol ac ymwelwyr perthnasol er mwyn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion ymhellach. Mae athrawon yn datblygu gweithgareddau dysgu sy'n cymell yr ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus drwy ymgorffori hanes a daearyddiaeth yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn eu haddysgu.

Yn ystod gweithgareddau dysgu, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn defnyddio trefniadau asesu ac adborth yn briodol, ar y cyfan. Mae athrawon yn defnyddio asesiadau o'r hyn mae disgyblion yn ei gyflawni yn gyson, a deilliannau asesiadau achlysurol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn briodol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion werthuso eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion er mwyn iddynt adnabod beth i'w wneud er mwyn datblygu yn eu dysgu ymhellach. Yn ogystal, ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cynnig digon o her i ddisgyblion er mwyn eu hymestyn i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Trwy gyflwyno themâu fel ffyddlondeb, hawliau ac empathi, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill yn llwyddiannus. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o'u hunain ac o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw. Er mwyn datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion, darperir cyfleoedd amrywiol gan staff er mwyn iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau arwain fel trwy weithgareddau y cyngor ysgol, grŵp y siarter iaith a chyngor diogelwch y ffordd. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw gwaith y cynghorau'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynnig cyfeiriad strategol pwrpasol a buddiol i'r ysgol, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu diwylliant ac ethos cynhwysol i wella lles a dysgu disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a diogel. Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth ynghyd â'r staff brwdfrydig yn cynnig cwricwlwm cyffrous i ddisgyblion, Mae staff yn amrywio'r dulliau addysgu a dysgu yn fuddiol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson. Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r amgylchedd dysgu hynod ddeniadol sy'n cefnogi disgyblion i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth y dysgu sylfaen.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant i staff ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol yn briodol. Mae hyn yn helpu'r tîm addysgu i fireinio eu harfer yn llwyddiannus, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r disgyblion.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn briodol, sy'n cynnwys yr holl staff ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol berthnasol. Mae hyn, ynghyd ag adnabyddiaeth dda yr arweinwyr o gynnydd disgyblion a chyd-destun yr ysgol o fewn yr ardal leol, yn eu galluogi i adnabod cryfderau cyfredol yr ysgol ac i bennu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwella. Er hyn, nid yw'r trefniadau gwerthuso ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn ddigon effeithiol. O

ganlyniad, nid yw'n glir bob tro sut mae'r gwelliannau hyn yn mynd i gael eu cynnal dros amser, er enghraifft wrth ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ymhellach ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu arweiniad cadarn a rhagweithiol i'r ysgol, sy'n cynnig cymorth a her briodol. Trwy sgwrsio â'r disgyblion a'r staff yn yr amgylchedd dysgu a chael adroddiadau gan y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o safonau a darpariaeth. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ddarbodus.

Mae'r pennaeth wedi datblygu perthnasoedd hynod gynhyrchiol â rhieni. Mae'n weledol ac yn cyfathrebu â rhieni yn gyson er mwyn eu hysbysu am ddigwyddiadau'r ysgol ac i godi ymwybyddiaeth am gyflawniadau a llwyddiannau disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/01/2025